**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/01758/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

27 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Diolch i chi ac i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â Bil Ffyniant Bro ac Adfywio Llywodraeth y DU (y Bil).

Rwyf yn croesawu'r adroddiad ac yn nodi pryder parhaus y Pwyllgor ynghylch dull munud olaf Llywodraeth y DU o ddrafftio. Rwyf yn rhannu'r rhwystredigaeth honno.

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ddatgan pryd y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol gyntaf o welliannau i gymal 139 ac egluro'n llawnach yr oedi wrth osod Memorandwm Rhif 3, yn enwedig pan fo cwmpas y materion sydd ynddo yn gymharol gul.**

Tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at welliannau Llywodraeth y DU i gymal 139 drwy ohebiaeth a ddaeth i law ar 27 Mawrth, ac ni chrybwyllwyd y rhain yn y cyfarfod gweinidogol ar 22 Mawrth. Yn y llythyr gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, gofynnwyd am farn Llywodraeth Cymru am eu hasesiad ynghylch a oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos rhestr hir o welliannau penodol. Er mai cwmpas cymharol gul oedd i'r gwelliannau i gymal 139 yr oedd cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer, roedd angen adolygu pob gwelliant er mwyn cadarnhau a oedd unrhyw welliannau eraill wedi'u cwmpasu gan Reol Sefydlog 29. Dyna pam y cafwyd oedi cyn cyflwyno'r memorandwm cydsyniad atodol.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad manwl o'r graddau y byddai Bil gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio gwneud darpariaeth mewn perthynas â data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl. Os nad yw wedi gwneud hynny, dylai'r Gweinidog esbonio pam.**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion polisi wedi ystyried y graddau y byddai Bil gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio gwneud darpariaeth mewn perthynas â Data Cynllunio ac Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl, a hynny yng nghyd-destun asesu'r darpariaethau at ddibenion llunio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn yn unig.

Nid yw fframwaith a fyddai'n cymryd lle Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) yn flaenoriaeth bolisi ar hyn o bryd yn y Rhaglen Lywodraethu bresennol. O ganlyniad, nid oes dadansoddiad manwl ar wahân wedi'i gynnal o newid ehangach i'r system, gan nad oedd angen gwneud hynny.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi unrhyw asesiad a gynhelir o'r graddau y byddai Bil gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio gwneud darpariaeth mewn perthynas â data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl.**

Gweler fy ymateb i argymhelliad 2.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog fynd i'r afael yn llawnach ag argymhelliad 6 yn ein hadroddiad gwreiddiol ac, yn ogystal, egluro'r hyn fyddai'r effaith ar Weinidogion Cymru pe na ellid gwrthdroi'r ddarpariaeth yng nghymal 128(2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd a pha gamau y byddai'r Gweinidog yn eu cymryd o ganlyniad i hynny.**

Mae'r ddarpariaeth yng nghymal 128(2) yn amodol ar p'un a yw'r dull Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Felly, mae'r trafodaethau rhwng swyddogion hyd yma wedi canolbwyntio ar y darpariaethau o sylwedd ac nid ydynt wedi ailadrodd ein gwrthwynebiad i ddileu'r adran hon.

Os daw'n angenrheidiol dileu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, byddwn i yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth yng nghymal 128(2) yn gymwys i Loegr yn unig.

Mae Adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu rhai pwerau cyfyngedig i wneud rheoliadau er mwyn mynd i'r afael ag AEA yn achos cynllunio gwlad a thref, ond nid yw'n darparu ar gyfer diwygio'r broses AEA gyfan. Y rheswm am hyn yw, ers i'r adran gael ei chyflwyno gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, mae'r system AEA wedi esblygu y tu hwnt i gyfyngiadau'r cymal drwy ddefnyddio pwerau yn Neddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Felly, byddai colli adran 71A yn effeithio ar allu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer rhan gychwynnol gweithdrefnau AEA yng nghyswllt cynllunio gwlad a thref cyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

Drwy golli adran 71A, yn absenoldeb pwerau i wneud rheoliadau yng nghyswllt Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol, byddai gweithdrefnau AEA ar gyfer cynllunio gwlad a thref yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, fel y cyfundrefnau cydsynio datganoledig eraill sy'n ddarostyngedig i AEA. Ni fyddai unrhyw newid deddfwriaethol yn cael ei gynnig i gywiro hyn yn y tymor byr oherwydd blaenoriaethau polisi eraill.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar unwaith am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU, gan gynnwys p'un a ddarparwyd y testun drafft sy'n darparu ar gyfer pwerau cyfatebol a gynigiwyd ar 22 Mawrth 2023, ac os felly, pryd y gwnaed hynny.**

Ers i bwerau cyfatebol gael eu cynnig yn y cyfarfod rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Ffyniant Bro) ar 22 Mawrth 2023, nid

ydym wedi cael gwelliannau drafft sy’n darparu ar gyfer pwerau cyfatebol. Ar 31 Mai, cafodd swyddogion gymalau drafft ynghylch Data Cynllunio ac Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol sy’n darparu ar gyfer dull cydredol plws yn achos y materion hynny sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd—a hynny fel y gall Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig, ond dim ond os bydd Llywodraeth y DU yn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw. Mae hefyd yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn achos y materion hynny a gedwir yn ôl ond lle y mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol.

Mae swyddogion wedi cyflwyno ymateb manwl i Lywodraeth y DU, gan awgrymu newidiadau i’r gwelliannau arfaethedig a fyddai’n adlewyrchu polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn well. Rydym yn aros am ymateb. Nid yw’r gwelliannau arfaethedig wedi’u cyflwyno’n ffurfiol.

**Argymhelliad 6. Dylai’r Gweinidog egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd os yw’n:**
**(i) methu sicrhau cytundeb ar ddarpariaethau presennol sy’n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol, ac yn methu sicrhau cytundeb ar gymhwyso’r darpariaethau hyn i Loegr yn unig;**
**(ii) gallu sicrhau cytundeb ar gymhwyso darpariaethau presennol sy’n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol i Loegr yn unig.**

Bydd Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol yn effeithio ar gyfundrefnau cydsynio Cymru yn anuniongyrchol hyd yn oed os nad yw’r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau i Gymru. Y rheswm am hyn yw y bydd yn rhaid i gyrff statudol datganoledig—Cyfoeth Naturiol Cymru yw’r brif enghraifft o’r rhain—ymateb i ymgynghoriadau ar gyfundrefnau cydsynio a gedwir yn ôl, fel y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, a fydd yn ddarostyngedig i’r dull Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol.

Yn y ddwy sefyllfa, bydd angen gweithio gyda Llywodraeth y DU i leihau’r effaith y bydd unrhyw reoliadau Data Cynllunio ac Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei chael ar gyfundrefnau cydsynio datganoledig. Bydd angen hynny yn arbennig pan fo’n debygol y bydd mwy o brosiectau ar draws awdurdodaethau, fel mewn ardaloedd morol. Mewn sefyllfa pan fo Llywodraeth y DU yn cadw’r gallu i ddeddfu ar gyfer cyfundrefnau cydsynio datganoledig heb gydsyniad, byddwn yn parhau i wrthwynebu rheoliadau o’r fath.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ennill pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer Data Cynllunio ac Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol, nid wyf yn bwriadu i reoliadau gael eu brysio drwodd heb i randdeiliaid yng Nghymru gael digon o gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o gynllunio dull gweithredu sy’n briodol i Gymru yng nghyswllt adroddiadau o’r fath.

Yn gywir




**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change